

**COMISIWN FFINIAU A DEMOCRATIAETH LEOL CYMRU**



Comisiwn Ffiniau a  
Democratiaeth Leol  
Cymru



Local Democracy and  
Boundary Commission  
For Wales

**AROLYGON ETHOLIADOL:  
POLISI AC ARFER 2016**



## **RHAGAIR**

Mae'r fersiwn diwygiedig hwn o'n dogfen Arolygon Etholiadol: Polisi ac Arfer wedi cael ei ddiweddarau mewn paratoad o rhaglen newydd o adolygiadau etholiadol. Mae'r rhaglen newydd hyn yn sgil y datganiad a wnaed gan Ysgrifennydd y Cabinet Llywodraeth Cymru dros Gyllid a Llywodraeth Leol ar 23 Mehefin 2016.

Mae'n ofynnol i'r Comisiwn, cyn cynnal yr arolwg, i ymgynghori â'r ymgynghoreion gorfodol ynghylch y weithdrefn a'r fethodoleg a fwriedir ar gyfer yr arolwg, ac yn benodol, ynghylch sut mae'n bwriadu penderfynu ar y nifer briodol o aelodau ar gyfer unrhyw brif gyngor yn y brif ardal neu ardaloedd dan sylw.

Mae'r Comisiwn wedi cynhyrchu'r llyfryn hwn sy'n cadarnhau'r gweithdrefnau a'r fethodoleg mabwysiadwyd mewn perthynas ag arolygon etholiadol. Mae'r llyfryn hefyd yn esbonio sut y byddwn yn ystyried mater y nifer briodol o aelodau etholedig a nodir ar gyfer pob prif gyngor.

**Owen Watkin OBE DL**  
**Cadeirydd**

Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru  
Tŷ Hastings  
Llys Fitzalan  
CAERDYDD  
CF24 0BL  
Ffôn: (029) 2046 4819  
Ffacs: (029) 2046 4823  
E-bost: [cffdlc.cymru@wales.gsi.gov.uk](mailto:cffdlc.cymru@wales.gsi.gov.uk)  
[www.cffdl.llyw.cymru](http://www.cffdl.llyw.cymru)

Mae'r Comisiwn yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg

## Cefndir

- 1 Mae'n ofynnol, er mwyn gwneud argymhellion i Weinidogion Cymru, i'r Comisiwn gynnal arolygon cyfnodol o drefniadau etholiadol prif ardaloedd yng Nghymru. Caiff y ffordd y mae'r Comisiwn yn cynnal arolwg ei diffinio gan ddeddfwriaeth a gellir ei harwain gan gyfarwyddiadau a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru.
- 2 Ym mis Rhagfyr 2013 cyhoeddodd y Comisiwn ei dogfen Arolygon Etholiadol: Polisi ac Arfer cyntaf, sy'n nodi amserlen bwriadol y Comisiwn ar gyfer cynnal yr adolygiadau o prif gynghorau Cymru'; ei bolisi Maint y Cyngor; ac, y polisiau a'r gweithdrefnau y byddai'n gymwys wrth gynnal yr adolygiadau.
- 3 Ar 20 Ionawr 2014 adroddodd y Comisiwn ar Wasanaeth Cyhoeddus Llywodraethu a Chyflenwi i Prif Weinidog Cymru yn argymhell newidiadau i'r cyfansoddiad a gweithrediad y 22 prif gynghorau yng Nghymru. Er mwyn osgoi unrhyw waith ofer gohiriwyd y Comisiwn ei raglen adolygu etholiadol dros dro.
- 4 Ar 23 Mehefin 2016 cyhoeddodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol Ddatganiad Ysgrifenedig yn gofyn i'r Comisiwn i ailgychwyn ei raglen 10 mlynedd gydag amserlen flaenoriaethu newydd gyda disgwyliad bod pob un o'r 22 arolygon etholiadol yn cael ei gwblhau mewn pryd ar gyfer gosod trefniadau newydd ar gyfer yr etholiadau llywodraeth leol yn 2022. Mae'r Datganiad Ysgrifenedig i'w gweld yn llawn yn Atodiad 4.
- 5 Mae'r dogfen diwygiedig Arolygon Etholiadol: Polisi ac Arfer hwn yn amlinellu amserlen blaenoriaethu newydd y Comisiwn, polisi maint y cyngor diweddarach a'r polisiau a'r gweithdrefnau a fydd yn eu cymhwyso er mwyn cwrdd â'r rhwymedigaethau fel y nodir yn y deddfwriaeth ac yn y Datganiad Ysgrifenedig.

## Gofynion Statudol

### Deddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013

- 6 Mae darpariaethau Deddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013 (y Ddeddf) mewn perthynas ag arolygon llywodraeth leol, gan gynnwys arolygon etholiadol, yn disodli darpariaethau deddfwriaeth gynharach.
- 7 Mae Adran 21 (3) y Ddeddf yn darparu bod yn rhaid i'r Comisiwn, wrth gyflawni ei ddyletswyddau, geisio sicrhau llywodraeth leol effeithiol a chyfleus. Dyma swyddogaeth bennaf a blaenaf y Comisiwn. Un o'r dyletswyddau y darperir ar eu cyfer gan y Ddeddf yw cynnal arolygon o'r trefniadau etholiadol ar gyfer prif ardaloedd.
- 8 Mae Adran 29 y Ddeddf yn rhoi dyletswydd ar y Comisiwn i arolygu'r trefniadau etholiadol ar gyfer pob prif ardal o leiaf unwaith bob deng mlynedd.
- 9 Diffinnir "trefniadau etholiadol" prif ardal yn Adran 29 (9) y Ddeddf fel a ganlyn:
  - (a) nifer aelodau'r cyngor ar gyfer y brif ardal;
  - (b) nifer, math a ffiniau'r wardiau etholiadol y rhennir y brif ardal iddynt am y tro at ddibenion ethol aelodau;

Mae'r Comisiwn yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg

AROLYGON ETHOLIADOL:  
POLISI AC ARFER 2016

(c) nifer yr aelodau sydd i'w hethol ar gyfer unrhyw ward etholiadol yn y brif ardal honno; ac

(ch) enw unrhyw ward etholiadol.

**Ystyriaethau ar gyfer Arolwg o Drefniadau Etholiadol Prif Ardal**

10 Mae'n ofynnol i'r Comisiwn, yn ôl Adran 30 y Ddeddf, i:

(a) geisio sicrhau bod yr un gymhareb o etholwyr llywodraeth leol i nifer aelodau'r cyngor sydd i'w hethol ym mhob ward etholiadol o'r brif ardal, neu'n agos at fod felly; a

(b) rhoi sylw i'r canlynol:

(i) dymunoldeb pennu ffiniau ar gyfer wardiau etholiadol sydd yn hawdd eu hadnabod ac a fyddant yn parhau felly; a

(ii) dymunoldeb peidio â thorri'r cwlwm lleol wrth bennu ffiniau ar gyfer wardiau etholiadol.

11 At ddibenion (a) uchod, rhaid rhoi sylw i'r canlynol:

(a) unrhyw anghysondeb rhwng nifer etholwyr llywodraeth leol a nifer y personau sydd yn gymwys i fod yn etholwyr llywodraeth leol (fel y gwelir mewn ystadegau swyddogol perthnasol); ac

(b) unrhyw newid yn nifer neu yn nosbarthiad etholwyr llywodraeth leol yn y brif ardal sy'n debygol o ddigwydd yn y cyfnod o bum mlynedd yn union ar ôl gwneud unrhyw argymhelliad.

**Newidiadau Canlyniadol**

12 Mae Adran 29 (7) yn darparu, fel rhan o arolwg etholiadol prif ardal, y gall y Comisiwn argymhell y newidiadau canlyniadol canlynol:

(a) y newidiadau hynny i ffiniau cymuned y mae o'r farn eu bod yn briodol mewn perthynas ag unrhyw gymuned yn y brif ardal;

(b) y newidiadau hynny i gyngor cymuned a newidiadau i'r trefniadau etholiadol ar gyfer cymuned o'r fath y mae o'r farn eu bod yn briodol; ac

(c) y newidiadau hynny i sir wedi ei chadw y mae o'r farn eu bod yn briodol.

**Cydbwysedd**

13 Mae'r ddeddfwriaeth yn ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiwn arfer barn gytbwys gan roi sylw i'r holl ystyriaethau perthnasol, gyda golwg ar wneud argymhellion ar gyfer trefniadau etholiadol sydd i gyflawni llywodraeth leol effeithiol a chyfleus. Mae gan y Comisiwn rywfaint o ddisgresiwn yn y ffordd y mae'n rhoi pwys ar y ffactorau sy'n ei gynorthwyo wrth wneud ei benderfyniadau.

14 Mewn sefyllfa ddelfrydol, byddai modd llunio patrwm o ffiniau wardiau etholiadol lle'r oedd gan bob cyngorydd (a phob ward etholiadol) mewn awdurdod gymhareb etholiadol gyfartal; gan ddod â phobl ynghyd mewn cymunedau hawdd eu hadnabod;

COMISIWN FFINIAU A  
DEMOCRATIAETH LEOL CYMRU

gan ddangos yn eglur sut y byddai llywodraeth leol yn effeithiol a chyfleus; a'u bod â'r nifer briodol o gynghorwyr.

- 15 Nid yw cyfansoddiad daearyddol, cymdeithasol, economaidd a gweinyddol Cymru, fodd bynnag, mor syml ag i hwyluso llunio patrymau etholiadol delfrydol o'r fath. Mae'n golygu bod yn rhaid i'r Comisiwn ystyried yr holl ffactorau gyda'i gilydd, ac arfer barn lle mae, o'u cymryd gyda'i gilydd, patrwm y wardiau etholiadol y maent yn eu dyfeisio yn dangos patrwm mor agos â phosibl at y ddelfryd a ddisgrifir uchod.
- 16 Mae'r ddogfen hon yn rhoi manylion ymagwedd y Comisiwn tuag at ddatrys yr her hon: mae'n gosod allan isod y materion i'w hystyried ac yn rhoi rhywfaint o ddealltwriaeth o'r ymagwedd gyffredinol y mae'r Comisiwn yn ei chymryd tuag at bob un o'r ystyriaethau statudol i'w gwneud wrth fynd i'r afael ag amgylchiadau penodol arolwg.

## Amserlen

- 17 Fel y nodir ym mhwynt 8 uchod, mae Adran 29 y Ddeddf yn gosod ar y Comisiwn y ddyletswydd i arolygu'r trefniadau etholiadol ar gyfer pob prif ardal o leiaf unwaith bob deng mlynedd. Yn sgil y Ddatganiad Ysgrifenedig, mae'r Comisiwn wedi paratoi a chyhoeddi rhaglen ddiwygiedig ar gyfer y cyfnod ac wedi anfon copi at Weinidogion Cymru, fel sy'n ofynnol gan y Ddeddf. Mae'r amserlen ar gyfer y rhaglen arolygon yn Atodiad 1.

## Gweithdrefn

### Gweithdrefn

- 18 Mae'r weithdrefn ar gyfer cynnal arolygon llywodraeth leol, gan gynnwys arolygon etholiadol, wedi ei gosod allan ym Mhennod 4 y Ddeddf.

### Gweithdrefn Cyn Arolwg

- 19 Cyn cynnal arolwg, mae'n rhaid i'r Comisiwn gymryd y camau hynny y mae o'r farn eu bod yn briodol er mwyn dod â'r arolwg i sylw ymgynghoreion gorfodol ac unrhyw berson arall y mae o'r farn ei bod yn debygol y bydd ganddynt fuddiant yn yr arolwg. Os rhoddir unrhyw gyfarwyddiadau gan Weinidogion Cymru, mae hefyd yn ofynnol i'r Comisiwn wneud yr ymgynghoreion gorfodol a'r personau eraill hynny y mae ganddynt fuddiant yn ymwybodol o'r rhain.
- 20 Mewn perthynas ag arolygon etholiadol prif ardaloedd, mae Adran 34 (3) y Ddeddf yn diffinio 'ymgynghoreion gorfodol' fel a ganlyn:
- unrhyw awdurdod lleol y mae'r arolwg yn effeithio arno;
  - y comisiynydd heddlu a throsedd ar gyfer unrhyw ardal heddlu y gall yr arolwg effeithio arni;
  - unrhyw gorff sy'n cynrychioli'r staff a gyflogir gan awdurdodau lleol sydd wedi gofyn am ymgynghoriad â hwy; ac
  - unrhyw bersonau eraill a bennir drwy orchymyn a wneir gan Weinidogion Cymru.
- 21 Tua thri mis cyn y bwriedir dechrau arolwg, bydd swyddogion y Comisiwn yn cyfarfod â swyddogion y cyngor dan sylw. Bydd y cyfarfod hwn yn gosod allan arferion a Mae'r Comisiwn yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg

AROLYGON ETHOLIADOL:  
POLISI AC ARFER 2016

gweithdrefnau cyffredinol yr arolwg. Bydd swyddogion y Comisiwn yn trafod beth yw disgwyliadau'r Comisiwn ar gyfer yr arolwg, sut rydym yn bwriadu cynnal ymgynghoriad a sut rydym yn disgwyl i'r cyngor gefnogi'r arolwg, o ran darparu gwybodaeth, gwneud cynigion ac o ran cyhoeddusrwydd i'r arolwg. Bydd y Comisiwn hefyd yn gofyn am ddata penodol yn y cyfarfod hwn, gan gynnwys rhagolygon ymhen pum mlynedd o'r etholwyr (mae'r wybodaeth ofynnol y bydd yn gofyn amdani wedi ei hamlinellu yn y nodyn technegol sydd ynghlwm yn Atodiad 3).

- 22 Y prif gyngor fydd yn penderfynu pa rai o'u swyddogion fydd yn mynychu'r cyfarfod hwn. Fodd bynnag, mae'r Comisiwn yn argymhell bod y cyngor yn ystyried y swyddogion canlynol (neu eu cyfwerth): y Prif Swyddog Gweithredol (neu gyfwerth), y Swyddog Gwasanaethau Etholiadol, cynrychiolydd gwasanaethau cyfreithiol a swyddog cynllunio i reoli'r gofyniad am ragolygon etholwyr. Mae'r Comisiwn o'r farn y bydd gan y swyddogion hyn i gyd rôl wahanol i'w chwarae wrth sicrhau bod yr arolwg yn cael ei gynnal yn effeithlon ac yn effeithiol gan wneud canlyniad llwyddiannus i'r arolwg yn fwy tebygol.
- 23 Yn dilyn cyfarfod y swyddogion, bydd swyddogion y Comisiwn a'r Comisiynydd Arwain dynodedig yn cyfarfod â Phrif Swyddog Gweithredol ac Arweinwyr Grŵp y prif gyngor. Bydd y Comisiwn yn gosod allan ei ddisgwyliadau ar gyfer yr arolwg, y nifer briodol o aelodau etholedig ar gyfer y cyngor dan sylw (gweler pwynt 24 isod ac Atodiad 2) a bydd yn pwysleisio pwysigrwydd derbyn cynigion a lunnir yn lleol ar gyfer yr ardal, a bydd hefyd yn gosod allan ei amserlen a gweithdrefnau ymgynghori.
- 24 Tua'r un pryd, bydd y Comisiwn hefyd yn briffio'r cyngor llawn gyda gwybodaeth debyg, gan bwysleisio'r angen am cynrychiolaeth o ansawdd i helpu i lywio penderfyniadau'r Comisiwn. Bydd y Comisiwn eisiau siarad mewn cyfarfod rheolaidd y cyngor er mwyn osgoi cyfarfodydd ychwanegol ar gyfer cynghorau at ddibenion yr arolwg etholiadol. Bydd y Comisiynydd Arwain yn mynychu'r cyfarfod briffio hwn.
- 25 Mae'r Comisiwn yn dymuno annog prif gynghorau i ddefnyddio'r wybodaeth am eu hardaloedd eu hunain i awgrymu cynllun ar gyfer trefniadau etholiadol i'r Comisiwn pan fydd arolwg yn cael ei gynnal. Dylai cyngor fod mewn sefyllfa i ymateb i'r arolwg gan y Comisiwn drwy awgrymu wardiau etholiadol sy'n bodloni gofynion cymunedau ac nad ydynt yn torri cysylltiadau lleol.
- 26 Tua'r adeg hon, bydd y Comisiwn hefyd yn cwrdd â chynrychiolwyr o gynghorau cymuned a thref a bydd yn rhoi sesiwn briffio debyg. Byddem yn croesawu cwrdd ag o leiaf un cynrychiolydd o bob cyngor cymuned a thref yn yr ardal dan sylw gan y byddai eu presenoldeb yn arbennig o fuddiol. Gall hyn fod ar yr un diwrnod â'r sesiwn briffio ar gyfer y cyngor llawn. Bydd y sesiwn briffio hon ar gyfer cynghorau cymuned a thref yn pwysleisio barn y Comisiwn ar rôl cymunedau fel rhan o'r arolwg etholiadol ac yn esbonio'r math o wybodaeth sy'n ddefnyddiol i'r Comisiwn wrth benderfynu pa gynigion drafft i ymgynghori yn eu cylch. Bydd y Comisiwn yn gofyn i'r prif gyngor dan sylw helpu i gyd-drefnu'r cyfarfodydd hyn.
- 27 Mae'r Comisiwn yn ystyried y bydd y cyfarfodydd hyn yn hwyluso arolwg a fydd yn denu'r cyfranogiad mwyaf gan unigolion a grwpiau y mae o'r farn y byddant yn cael yr effaith fwyaf ar yr arolwg. Wrth i'r arolwg gychwyn yn swyddogol, bydd y Comisiwn yn ysgrifennu at y prif gyngor dan sylw, yr holl gynghorau cymuned yn yr ardal, Aelodau Seneddol ac Aelodau'r Cynulliad yr etholaethau lleol a phartïon eraill â buddiant i roi gwybod iddynt am ei fwriad i gynnal yr arolwg, i ofyn am eu barn gychwynol. Hefyd bydd y Comisiwn yn cyhoeddi datganiadau i'r wasg am yr arolwg a mynd ati i gynnal cyfweiliadau radio lle y gall roi cyhoeddusrwydd i'r arolwg i'r cyfryngau a bydd yn mynd

COMISIWN FFINIAU A  
DEMOCRATIAETH LEOL CYMRU

ati i hwyluso cyfweiliadau yn ôl yr angen i roi cyhoeddusrwydd i'r arolwg. Hefyd bydd y Comisiwn yn darparu deunydd cyhoeddusrwydd y bydd yn gofyn i'r prif gyngor a'r cynghorau tref a chymuned ei ddsbarthu mewn manau priodol, megis llyfrgelloedd cyhoeddus, hysbysfyrddau cynghorau tref a chymuned, gwefannau a chylchlythyrau cynghorau ac ati.

- 28 Mae'r Comisiwn wedi mabwysiadu methodoleg i bennu nifer yr aelodau etholedig sy'n briodol ar gyfer pob cyngor. Ceir eglurhad o'r fethodoleg a'r niferoedd canlyniadol o gynghorwyr a nodir ar gyfer y prif gynghorau yn Atodiad 3. Mae'r Comisiwn yn ystyried y datganiad ynghylch nifer y cynghorwyr a bennir gan ei fethodoleg fel nod y bydd y Comisiwn yn gweithio tuag ato a gellir ei ddefnyddio i gyflwyno cynlluniau a lunnir yn lleol. Gallai'r Comisiwn, fodd bynnag, ystyried gwyro o'r nod hwn os rhoddir rhesymau cryf dros wneud hynny ac os yw'r amrywiad yn gallu darparu trefniadau etholiadol effeithiol.

### **Cynigion Drafft**

- 29 Yn dilyn y cyfnod ymgynghori, bydd y Comisiwn yn ystyried y cynrychiolaethau y mae wedi'u derbyn a bydd yn cyhoeddi cynigion drafft ar gyfer ymgynghori. Bydd y cyfnod ymgynghori yn para rhwng 6 a 12 wythnos, 12 wythnos fel arfer. Bydd y Comisiwn yn ysgrifennu at y prif gyngor sy'n destun yr arolwg, yr holl gynghorau cymuned yn yr ardal, yr Aelodau Seneddol a'r Aelodau Cynulliad ar gyfer yr etholaethau lleol a phartïon eraill â buddiant, i'w hysbysu ynglŷn â'r cynigion drafft, ac i ofyn am eu barnau. Bydd y Comisiwn hefyd yn cyhoeddi datganiadau i'r wasg ynglŷn â'r cynigion. Bydd y Comisiwn hefyd yn darparu deunydd cyhoeddusrwydd y bydd yn gofyn i'r prif gyngor a'r cynghorau tref a chymuned i'w ddsbarthu mewn manau priodol, fel llyfrgelloedd cyhoeddus, hysbysfyrddau tref a chymuned, gwefannau a chylchlythyrau'r cyngor ac ati.

### **Cynigion Terfynol**

- 30 Yn dilyn y cyfnod ymgynghori, bydd y Comisiwn yn ystyried y cynrychiolaethau y mae wedi'u derbyn ac yn cyhoeddi Argymhellion Terfynol a'u cyflwyno i Lywodraeth Cymru. Bydd y Comisiwn yn ysgrifennu at y prif gyngor sy'n destun yr arolwg, yr holl gynghorau cymuned yn yr ardal, yr Aelodau Seneddol a'r Aelodau Cynulliad ar gyfer yr etholaethau lleol a phartïon eraill â buddiant, i'w hysbysu ei fod wedi cyflwyno argymhellion i Lywodraeth Cymru. Bydd y Comisiwn hefyd yn cyhoeddi datganiadau i'r wasg ynglŷn â'r argymhellion. Bydd y Comisiwn hefyd yn darparu deunydd cyhoeddusrwydd y bydd yn gofyn i'r prif gyngor a'r cynghorau tref a chymuned i'w ddsbarthu mewn manau priodol, fel llyfrgelloedd cyhoeddus, hysbysfyrddau tref a chymuned, gwefannau a chylchlythyrau'r cyngor ac ati.
- 31 Nid oes cyfnod ymgynghori pellach gyda'r Comisiwn.
- 32 Llywodraeth Cymru sydd i benderfynu wedyn sut mae'n dymuno symud ymlaen ar yr argymhellion. Fel arfer, ar ôl cyfnod o 6 wythnos o leiaf, byddai Gorchymyn yn cael ei wneud, a all gynnwys mân addasiadau.

### **Yr ystyriaethau i'w gwneud yn ystod arolwg etholiadol**

- 33 Yn nodweddiadol, mae arolygon yn cyflwyno amrywiaeth o faterion a heriau sy'n gofyn am farn ar gydbwysedd, gan gymryd materion i ystyriaeth, yn ychwanegol at ofynion statudol, sy'n cynnwys y canlynol:

Mae'r Comisiwn yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg



AROLYGON ETHOLIADOL:  
POLISI AC ARFER 2016

- llywodraeth leol effeithiol a chyfleus;
- cydraddoldeb etholiadol;
- dadleuon yn ymwneud â chysylltiadau cymunedol sy'n cyfiawnhau lefelau annodweddiadol o gydraddoldeb etholiadol;
- topograffeg y tir, bryniau ac afonydd yn creu ffiniau naturiol a thraffyrdd/rheilffyrdd yn ffurfio ffiniau gwneuthuredig;
- y bwlch rhwng gwlad a thref;
- ffiniau ardaloedd cymunedol a wardiau cymunedol (lle mae ardaloedd cymunedol yn cael eu rhannu'n wardiau) yn cael eu defnyddio fel blociau adeiladu sylfaenol; a,
- wardiau etholiadol ag un aelod yn erbyn wardiau etholiadol aml-aelod.

34 Bydd y Comisiwn yn cymryd i ystyriaeth yr holl ffactorau hyn wrth wneud argymhellion a gwahodd ymatebwyr i ystyried pob un o'r rhain wrth gyflwyno cynlluniau a rhoi sylwadau ar y cynigion drafft.

*Llywodraeth leol effeithiol a chyfleus*

35 Mae gan y Comisiwn ddyletswydd i argymhell i Weinidogion Cymru'r fath drefniadau etholiadol a fydd yn sicrhau llywodraeth leol effeithiol a chyfleus ar gyfer prif gynghorau.

36 Wrth geisio sicrhau llywodraeth leol effeithiol a chyfleus, bydd y Comisiwn, wrth ystyried trefniadau etholiadol arfaethedig, yn sicrhau bod wardiau etholiadol yn fewnol gydlynol. Hynny yw, bod cysylltiadau ffyrdd rhesymol ar draws ward etholiadol fel y gellir ei chroesi'n hawdd, ac y gall yr holl etholwyr yn y ward gymryd rhan ym materion a gweithgareddau pob rhan ohoni heb orfod teithio drwy ward gyfagos. Gall y sefyllfa hon godi, er enghraifft, pan fydd ffin bosibl y ward etholiadol yn cyfuno dwy gymuned lle mae nodwedd megis mynydd neu afon yn eu rhannu.

37 Bydd ffactorau gan gynnwys mynediad hwylus i aelodau etholedig gan yr etholwyr a phobl y maent yn eu cynrychioli, patrymau aneddiadau a rhwyddineb cyfathrebu o fewn ardaloedd etholiadol yn cael eu cymryd i ystyriaeth.

*Cydraddoldeb etholiadol a Niferoedd Cynghorwyr*

38 Mae nifer yr etholwyr o fewn wardiau etholiadol a gynrychiolir gan aelodau etholedig yn dangos y cymarebau etholiadol ar gyfer y wardiau hynny. Fel y nodwyd ym mharagraff 28 uchod, bydd y Comisiwn yn ystyried ar gyfer pob arolwg y nifer briodol o aelodau etholedig i'r cyngor dan sylw yn unol â'r fethodoleg a osodir allan yn Atodiad 3.

39 Mae gosod nifer yr aelodau etholedig yn galluogi cyfrifo'r gymhareb etholiadol gyfartalog ar gyfer y cyngor. Er y bydd y Comisiwn yn ceisio cyflawni cymarebau yn agos at y cyfartaledd ar gyfer cynghorau, mae'r Comisiwn yn cydnabod, fodd bynnag, y bydd amrywiadau. Wrth ystyried pa amrywiad sy'n dderbyniol, bydd yn rhaid i'r Comisiwn gydymffurfio â'r ystyriaethau a osodir allan yn y ddeddfwriaeth sy'n nodi bod yn rhaid i'r Comisiwn geisio sicrhau bod "*yr un gymhareb o etholwyr llywodraeth leol i nifer aelodau'r cyngor sydd i'w hethol ym mhob ward etholiadol o'r brif ardal, neu'n agos at fod felly*".

40 Er y gallai fod o gymorth i gael amrywiant canran o'r cyfartaledd ar gyfer cynghorau a fydd yn dderbyniol o ran cydraddoldeb etholiadol, mae'r Comisiwn o'r farn bod pob cyngor yn wahanol ac y bydd rhai cynghorau a wardiau etholiadol yn gallu darparu ar gyfer lefel well o gydraddoldeb etholiadol nag eraill. Bydd y Comisiwn yn ceisio darparu'r lefel orau o gydraddoldeb etholiadol ar gyfer pob ardal dan sylw a bydd yn

COMISIWN FFINIAU A  
DEMOCRATIAETH LEOL CYMRU

cymryd pob achos yn ôl ei deilyngdod. Mae'r Comisiwn o'r farn y gellir cyfiawnhau gwyro o'r gymhareb gyfartalog ar gyfer y cyngor dim ond gyda thystiolaeth eglur o ffactorau cydbwysol eraill, megis cysylltiadau lleol neu ystyriaethau perthnasol eraill.

- 41 Mae gan lawer o brif gynghorau wardiau etholiadol trefol a gwledig. Mewn arolygon blaenorol mae'r Comisiwn wedi derbyn sylwadau i'r perwyl y dylai ardaloedd trefol gael cyfran fwy o gynghorwyr nag ardaloedd gwledig oherwydd bod ardaloedd trefol yn cyflwyno materion mwy cymhleth. Roedd eraill yn dadlau y dylai ardaloedd gwledig gael cyfran fwy o gynghorwyr oherwydd bod poblogaethau gwledig yn fwy gwasgaredig, ac felly yn fwy anodd i gysylltu â hwy. Nid oes unrhyw ddarpariaeth mewn deddfwriaeth ar gyfer cyfranoldeb o'r fath. Nid yw'r defnydd cynyddol o ddulliau cyfathrebu electronig yn gyffredinol yn gwneud unrhyw wahaniaeth rhwng ardaloedd trefol a gwledig. Fodd bynnag, mae'n bosibl y bydd eithriadau lle mae nodweddion lleol, gan gynnwys topograffeg a band eang cyflym, yn arwain at dderbyn amrywiad penodol mewn cymhareb etholiadol ar gyfer un neu fwy o wardiau etholiadol.
- 42 Mae Deddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013 yn gosod gofyniad pellach ar y Comisiwn. Mae Adran 30 (2) (a) yn datgan y dylid ystyried "...*unrhyw anghysondeb rhwng nifer etholwyr llywodraeth leol a nifer y personau sydd yn gymwys i fod yn etholwyr llywodraeth leol (fel y gwelir mewn ystadegau swyddogol perthnasol)*...". Fel yn achos y data etholwyr (a'r data etholwyr rhagamcanol, gweler isod) mae'r Comisiwn yn dibynnu ar y prif gyngor i ddarparu'r wybodaeth hon a lefel y manylion sydd eu hangen i wneud cynigion sydd yn arwain at lywodraeth leol effeithiol a chyfleus. Bydd y Comisiwn yn ei gwneud yn ofynnol i gynghorau ddarparu ystadegau am y rhai sy'n gymwys i gael eu cofrestru i bleidleisio ond nad ydynt wedi eu cynnwys ar y cofrestrau etholiadol. Bydd y Comisiwn yn ystyried cynrychiolaethau sy'n defnyddio'r anghysondeb rhwng etholwyr a'r rhai sy'n gymwys i bleidleisio yn ei ystyriaethau o drefniadau etholiadol, ond dim ond lle mae'r ystadegau wedi eu darparu gan y cyngor ar ddechrau'r arolwg.
- 43 Bwriad cyffredinol y Comisiwn yw gwella cydraddoldeb etholiadol o ganlyniad i arolwg. Caiff hyn ei lywio gan y data a ddarperir gan gynghorau ynghylch etholwyr presennol yn ogystal â rhagolygon etholiadol ymhen pum mlynedd, ac i ymateb i oblygiadau newidiadau yn nifer a dosbarthiad etholwyr. Mae'r Comisiwn yn disgwyl i gynghorau ddarparu amcangyfrifon realistig o newidiadau yn y boblogaeth a gefnogir gan dystiolaeth briodol. Ym mhrofiad y Comisiwn, mae'r ffigyrau rhagamcanol yn aml yn mynd yn groes i raddau sylweddol i'r newid gwirioneddol yn nifer yr etholwyr. Yn gyffredinol, bydd pob cyngor yn rhagweld cynnydd yn nifer yr etholwyr, yn aml ym mhob ward etholiadol. Ond mewn gwirionedd, mae rhywfaint o symudiad yn y boblogaeth i ffwrdd o gymunedau a chynghorau gwledig a thuag at ardaloedd mwy trefol. Wrth wneud rhagolygon ymhen pum mlynedd, mae'r Comisiwn yn rhybuddio yn erbyn gwneud rhagamcaniadau gor-uchelgeisiol.

*Y nifer briodol o gynghorwyr mewn ward etholiadol*

- 44 Mae'r Comisiwn o'r farn, yn y lle cyntaf, ei bod yn ddymunol y dylai pob ward etholiadol ddychwelyd un aelod. Mae'n bosibl y gall y Comisiwn, fodd bynnag, argymhell y dylai wardiau gael eu cynrychioli gan hyd at dri aelod mewn achosion a gefnogir gan dystiolaeth ynghylch cymeriad y ward ac er budd cydraddoldeb etholiadol. Mae'r Comisiwn yn credu ei bod yn ddymunol i beidio cael mwy na thri aelod mewn ward oherwydd nad yw cael pedwar neu fwy o aelodau yn briodol mewn system etholiadol y cyntaf i'r felin, ac y byddai cymaint â hyn o aelodau'n gwanhau atebolrwydd i raddau gormodol. Ar ben hynny, o safbwynt gweinyddol, mae etholiad yn gynyddol anodd i weinyddwyr etholiadol a swyddogion canlyniadau ei weinyddu lle mae mwy na thri  
Mae'r Comisiwn yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg

AROLYGON ETHOLIADOL:  
POLISI AC ARFER 2016

aelod. Yn unol â hynny, ni fydd y Comisiwn yn argymhell unrhyw wardiau aml-aelod newydd gyda mwy na thri aelod.

- 45 Lle mae ward â phedwar neu bum aelod yn bodoli yn y trefniadau presennol, bydd y Comisiwn yn ystyried trefniadau eraill sy'n darparu ar gyfer wardiau gyda thri aelod neu lai. Os yw'r Comisiwn yn derbyn tystiolaeth sylweddol o gefnogaeth leol i'r trefniant presennol gan aelodau a'u hetholwyr, ac y gellir cael tystiolaeth ei fod yn gweithio'n effeithiol ac yn gyfleus ar gyfer llywodraeth leol, yna mae'n bosibl y bydd y Comisiwn yn ystyried argymhell cynnal y trefniant presennol.
- 46 Mae'r Comisiwn yn ystyried bod wardiau etholiadol aml-aelod yn fwy tebygol o fod yn effeithiol a chyfleus mewn ardaloedd trefol nag mewn ardaloedd gwledig. Mewn ardaloedd â phoblogaeth fwy dwys, fel y ceir mewn ardaloedd trefol, mae'n bosibl y gallai llawer o'r materion sy'n berthnasol i gynghorydd fod yn weddol debyg o ran natur a gellir galluogi nifer o gynghorwyr i ymdrin â materion tebyg.
- 47 Mae'r Comisiwn yn cefnogi'r egwyddor y dylai pob ward etholiadol adlewyrchu gofynion y gymuned neu'r cymunedau y maent yn eu cynnwys a bydd yn ymdrechu i argymhell hyn, ond mae'n cydnabod, weithiau, mai wardiau aml-aelod yw'r ffordd fwyaf effeithiol o sicrhau cydbwysedd o ran y meini prawf ac felly mae'n bosibl y gallai hefyd eu hargymhell mewn ardaloedd gwledig.

*Cymunedau*

- 48 Mae rhywfaint o ddryswch yn gallu bodoli ynghylch yr hyn a olygir gan y gair cymuned. Mae'n golygu gwahanol bethau i wahanol bobl. Bydd rhai pobl yn ei hystyried i olygu'r stryd lle maent yn byw, eraill yn ei gweld fel ardal bentref fwy eang, ac eraill yn ystyried ardaloedd llawer mwy o faint. Mae'r rhain i gyd yn gwbl gywir ac yn adlewyrchu bywydau pobl a'r gwahaniaethau a'r tebygrwydd rhwng lleoedd lle rydym yn byw, yn gweithio ac yn rhyngweithio. Fodd bynnag, yng Nghymru, mae ystyr ychwanegol a mwy technegol i'r gair yn fod Cymru gyfan wedi ei rhannu'n ardaloedd cymunedol.
- 49 Mae gan lawer o ardaloedd cymunedol gynghorau cymuned neu dref. Lle mae gan ardal gymunedol gyngor cymuned neu dref, mae'n bosibl y bydd yr ardaloedd hyn yn cael eu rhannu'n wardiau at ddibenion etholiadol. Mae dros ddwy ran o dair o boblogaeth Cymru wedi eu cwmpasu gan gynghorau tref a chymuned. Bydd y Comisiwn yn defnyddio cymunedau a wardiau cymunedol fel y blociau adeiladu sylfaenol sy'n creu wardiau etholiadol. Mae Deddf 2013 yn gwneud darpariaeth i'r Comisiwn argymhell newidiadau i ffiniau cymunedau a wardiau cymunedol o ganlyniad i newidiadau i ffiniau wardiau etholiadol. Mae'r ddarpariaeth hon yn rhoi rhywfaint o hyblygrwydd i'r Comisiwn o ran creu wardiau etholiadol.
- 50 Yn unol â hynny, mae gan y Comisiwn hyblygrwydd o ran sut y mae'n defnyddio cymunedau a wardiau cymunedol presennol fel blociau adeiladu i greu wardiau etholiadol. Mae'r Comisiwn yn cydnabod, fodd bynnag, wrth greu wardiau etholiadol, fod yn rhaid iddo roi sylw i ddymunoldeb pennu ffiniau ar gyfer wardiau etholiadol sydd ac a fydd yn hawdd eu hadnabod; a dymunoldeb peidio â thorri cysylltiadau lleol wrth bennu ffiniau ar gyfer wardiau etholiadol (mae'r gofynion hyn yn cael eu hystyried ym mharagraffau 47 a 49 yn y drefn honno isod). Bydd y Comisiwn yn sicrhau bod cynigion ar gyfer newidiadau canlyniadol i ffiniau cymunedau a wardiau cymunedol yn destun ymgynghori fel arfer a bydd cynigion ar gyfer newidiadau sylweddol i ffiniau yn cael eu cynnwys mewn adroddiad cynigion drafft. Bydd y Comisiwn yn croesawu cynrychiolaethau sy'n ymwneud â chynigion ar gyfer newidiadau i ffiniau sydd wedi eu cefnogi gan dystiolaeth glir a pherthnasol yn ystod y cyfnod ymgynghori cychwynnol.

COMISIWN FFINIAU A  
DEMOCRATIAETH LEOL CYMRU

Bydd unrhyw newidiadau newydd o'r math hwn yn cael eu hystyried yn y cam cynigion terfynol yn unig yn dilyn tystiolaeth sylweddol a gyflwynir mewn cynrychiolaethau a wnaed mewn perthynas â'r cynigion drafft.

*Ffiniau sy'n hawdd eu hadnabod*

- 51 Fel yr ystyriwyd ym mharagraff 46 uchod, yn gyffredinol, bydd y Comisiwn yn defnyddio'r ardaloedd cymunedol a, lle maent yn bodoli, wardiau cymunedol fel blociau adeiladu sylfaenol ar gyfer wardiau etholiadol. Mae hyn mewn gwirionedd yn golygu bod ffiniau unrhyw wardiau etholiadol arfaethedig yn cael eu llunio o ffiniau ardaloedd llywodraeth leol presennol ac fel y cyfryw dylid eu hadnabod yn hawdd. Fodd bynnag, mae hyn yn dibynnu ar arolygu ffiniau ardaloedd cymunedol a wardiau cymunedol yn rheolaidd gan y prif gyngor i ystyried datblygiadau newydd sy'n croesi ffiniau presennol. Lle mae newidiadau i ffiniau cymunedau neu wardiau cymunedol yn cael eu hystyried o ganlyniad i newidiadau arfaethedig i ffiniau wardiau etholiadol, bydd y Comisiwn yn ceisio sicrhau bod y ffiniau newydd yn hawdd eu hadnabod.
- 52 Gall ffyrdd gael eu gweld fel canolbwynt ardal os ydynt yn cynnwys siopau neu gyfleusterau cymunedol y mae pobl yn ymweld â nhw'n rheolaidd a lle y maent yn rhyngweithio. Mae'n bosibl iddynt eu hunain fod yn destun problem i gymunedau, efallai pan fydd ystyriaethau diogelwch, amgylcheddol neu economaidd yn gatalydd i ryngweithio cymunedol. Fel arall, mae priffyrdd, afonydd neu linellau rheilffordd yn aml yn rhwystrau ffisegol sy'n nodi ffin rhwng gwahanol gymunedau.

*Cysylltiadau lleol*

- 53 Mae'r ddeddfwriaeth yn ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiwn ystyried dymunoldeb peidio â thorri cysylltiadau lleol wrth bennu ffiniau ar gyfer wardiau etholiadol. Gall hyn ddigwydd pan fydd cynigion yn cael eu gwneud ar gyfer trefniadau newydd sy'n rhannu cymunedau (neu wardiau cymunedol) sydd ar hyn o bryd gyda'i gilydd yn yr un ward etholiadol, yn ddwy ward etholiadol,. Fodd bynnag, mae'r term "cysylltiadau lleol" mor gymhleth fel y gall pobl ystyried bod gan eu hardal gysylltiadau â nifer o ardaloedd eraill. Hefyd gall fod yn wir fod pobl sy'n rhannu diddordeb yng ngwaith cynnal a chadw a rheoli ffisegol eu hamgylchedd byw yn ystyried bod eu cysylltiadau lleol o fewn ffiniau eithaf cyfyng. Er enghraifft, mae'r Comisiwn wedi derbyn sylwadau gan bobl sy'n ystyried bod eu ward gymunedol unigol yn wahanol ac annhebyg i ward gymunedol arall yn yr un gymuned ac maent yn gwrthwynebu'n bendant cael eu rhoi mewn ward etholiadol sy'n cynnwys ward gymunedol arall yn yr un gymuned.
- 54 Fodd bynnag, mae'n bosibl y bydd y Comisiwn hefyd yn derbyn cynrychiolaethau gan bobl a allai fod â diddordeb yn y ffordd y mae eu hysbyty cyffredinol neu ysgol uwchradd yn darparu gwasanaethau neu ym mharhad cyflogwr ar raddfa fawr a thrwy hynny yn gweld eu hunain hefyd fel rhan o gymuned ehangach o lawer o ran maint . Mae hyn yn aml yn arwain at awgrym o gysylltiadau lleol rhwng ardaloedd cymunedol lluosog (p'un a oes ganddynt gyngor cymuned neu dref neu beidio) ac yn aml gall ddod â gwrthwynebiad dwfn i rannu ardaloedd cymunedol yn ddwy (neu fwy) o wardiau etholiadol lle roeddent yn flaenorol wedi eu cynnwys o fewn un.
- 55 Gallai ardal sy'n amlygu ei bod yn ardal Gymraeg ei hiaith fod yn enghraifft arall o gysylltiadau lleol. Byddwn yn cydnabod nodweddion Cymraeg cymuned wrth gynnal arolwg. Bydd y Comisiwn yn defnyddio data'r cyfrifiad i geisio sicrhau nad yw'n rhoi cynigion gerbron a fyddai'n tanseilio'r defnydd o'r Gymraeg.

Mae'r Comisiwn yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg

AROLYGON ETHOLIADOL:  
POLISI AC ARFER 2016

- 56 Yn aml mae'r Comisiwn ond yn clywed gan ymatebwyr sy'n gwrthwynebu'r cynigion drafft ar y sail eu bod wedi torri cysylltiadau lleol. Mae'r Comisiwn hefyd yn gofyn i ymatebwyr ddweud wrtho pan fydd cynigion yn adlewyrchu cysylltiadau lleol fel bod y Comisiwn yn gwybod ei fod wedi cael ei gynigion yn gywir ac ni fyddant yn eu newid ar sail gwybodaeth arall.
- 57 Mewn rhai ardaloedd bydd ward etholiadol yn fwy o ran maint ffisegol na chymuned adnabyddadwy (neu ward gymunedol): weithiau mae'n rhaid i'r Comisiwn gyfuno dwy neu fwy o gymunedau gwahanol o fewn ward etholiadol. Mae hyn yn arbennig o wir mewn ardaloedd gwledig.

*Enwau wardiau etholiadol*

- 58 Pan fydd y Comisiwn yn cynnig ffurfio wardiau etholiadol newydd, bydd y Comisiwn hefyd yn awgrymu enwau ar gyfer y wardiau newydd. Lle bo hynny'n briodol, bydd y Comisiwn yn cynnig enwau Saesneg a/neu Gymraeg amgen ar gyfer y wardiau newydd. Wrth greu'r enwau, bydd y Comisiwn yn ymgynghori â Chomisiynydd y Gymraeg ynglŷn ag addasrwydd yr enwau Cymraeg a gynigiwyd cyn cyhoeddi cynigion drafft neu gynigion terfynol.
- 59 Yn ystod y cyfnod ymgynghori, mae'r Comisiwn yn croesawu awgrymiadau am enwau gwahanol yn Gymraeg a/neu Saesneg fel y bo'n briodol. Mae'r Comisiwn yn ffafrio enwau sy'n gysylltiedig â'r ardal dan sylw ond nid yw'n ffafrio enwau sydd ond yn rhestru enwau pob cymuned o fewn y ward.


*Cynrychiolaethau*

- 60 Mae'r Comisiwn yn dymuno annog prif gynghorau i ddefnyddio'r wybodaeth am eu hardaloedd i awgrymu cynllun ar gyfer trefniadau etholiadol i'r Comisiwn pan fydd arolwg yn cael ei gynnal. Ar ôl cynnal arolwg o'i gymunedau, a bod yn ymwybodol o'r nifer priodol o aelodau sydd i'w hethol ar gyfer ardal y prif gyngor, dylai'r cyngor hwnnw fod mewn sefyllfa i ymateb i'r arolwg gan y Comisiwn drwy awgrymu wardiau etholiadol sy'n bodloni'r gofynion i gymunedau gael ffiniau hawdd eu hadnabod ac nad ydynt yn torri cysylltiadau lleol.
- 61 Mae'r Comisiwn yn annog cynghorau tref a chymuned, aelodau, partïon â buddiant a'r cyhoedd yn gyffredinol i wneud cynrychiolaethau ac awgrymiadau fel rhan o'r broses arolygu. Mae'r Comisiwn yn croesawu cynrychiolaethau sy'n seiliedig ar dystiolaeth a ffeithiau sy'n berthnasol i'r trefniadau etholiadol dan sylw. Bydd y Comisiwn yn ystyried, cydnabod a chrynhofi pob sylw a wneir. Os bydd unrhyw berson neu gorff yn gwneud cynrychiolaethau i'r Comisiwn a heb dderbyn cydnabyddiaeth, dylent gysylltu â'r Comisiwn i sicrhau ei fod wedi derbyn y cynrychiolaethau. Os nad yw eich cynrychiolaethau'n cael eu cydnabod, mae'n debygol iawn nad yw'r Comisiwn wedi derbyn y cynrychiolaethau ac ni fyddant yn cael eu hystyried yn nhrefnadaethau'r Comisiwn.
- 62 Mae crynodeb o'r holl cynrychiolaethau y mae'r Comisiwn yn eu derbyn yn cael ei gyhoeddi mewn atodiad yng Nghynigion Drafft ac Adroddiadau Cynigion Terfynol y Comisiwn. Mae gan y Comisiwn bolisi na fydd crynodebau o cynrychiolaethau gan aelodau'r cyhoedd yn cael eu henwi. Bydd y Comisiwn yn rhestru lleoliad eu preswylfa yn y crynodeb o'u cynrychiolaethau.

**Casgliad**

- 63 Mae arolwg etholiadol yn ymarferiad sy'n cyflawni cyfrifoldeb statudol, sy'n defnyddio'r pwerau a roddwyd i'r Comisiwn, ac sy'n arddangos dyfarniad y mae'r ddeddfwriaeth yn galw amdano. Bwriad polisiâu'r Comisiwn yw rhoi hyder i bobl yn y ffordd y bydd yn ymdrin â'r heriau mewn unrhyw arolwg, ond nid ydynt yn atal cael y cydbwysedd cywir mewn amgylchiadau penodol y cymunedau a'r prif gyngor dan sylw. Mae'r Comisiwn yn ymarfer barn ar y cyd wrth benderfynu ar y materion sy'n arwain at y cynigion yn yr arolygon, a bydd yr ystyriaethau a roddwyd i'r materion a'r rhesymeg a fabwysiadwyd yn cael eu hesbonio yn yr adroddiadau.

Mawrth 2017



Comisiwn Ffiniau a  
Democratiaeth Leol  
Cymru



Local Democracy and  
Boundary Commission  
For Wales

# **RHAGLEN AROLYGON ETHOLIADOL 2017**

## **ASESIAD AC AMSERLEN**

## Cyflwyniad

1. Mae Deddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiwn gyhoeddi rhaglen deng mlynedd o arolygon etholiadol.
2. Ym mis Chwefror 2013, aeth y Comisiwn ati i ddadansoddi'r wybodaeth a gafodd gan brif gynghorau a'r ffactorau perthnasol yr ystyriwyd eu bod yn angenrheidiol i ddatblygu rhaglen 10 mlynedd o arolygon etholiadol ar gyfer y 22 prif gyngor yng Nghymru.
3. Ar 20 Ionawr 2014, adroddodd y Comisiwn ar Lywodraethu a Darparu Gwasanaethau Cyhoeddus i'r Prif Weinidog yn argymhell newidiadau i gyfansoddiad a gweithrediad 22 prif gyngor Cymru. Er mwyn osgoi unrhyw waith diwerth, ataliodd y Comisiwn ei raglen arolygon etholiadol.
4. Ar 23 Mehefin 2016 cyhoeddodd yr Ysgrifennydd Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol Ddatganiad Ysgrifenedig yn gofyn i'r Comisiwn ailgychwyn ei raglen 10 mlynedd gydag amserlen newydd â blaenoriaeth, gyda disgwyliad y bydd pob un o'r 22 o arolygon etholiadol wedi'u cwblhau mewn pryd i'r trefniadau newydd gael eu rhoi ar waith ar gyfer etholiadau llywodraeth leol 2022. Yn Natganiad yr Ysgrifennydd Cabinet, gofynnodd i'r arolygon ar gyfer Sir Gaerfyrddin, Ceredigion, Conwy, Sir Ddinbych, Gwynedd, Sir Fynwy, Sir Benfro, Powys a Thorfaen fod y naw arolwg cyntaf yn y rhaglen.
5. Mae'r Rhaglen Arolygon Etholiadol ddiwygiedig arfaethedig hon, gan ddefnyddio'r etholaethau llywodraeth leol diweddaraf, yn amlinellu amserlen newydd â blaenoriaeth arfaethedig y Comisiwn, a sut y gwnaeth y penderfyniad.

## Asesiad

6. Fel gyda'r rhaglen arolygon etholiadol flaenorol, penderfynwyd mai'r ffactorau a ddefnyddir wrth ystyried rhaglen o arolygon fyddai:
  - i. Dargyfeiriad o nod Polisi'r Comisiwn ar Faint Cynghorau;
  - ii. Y Gorchymyn arolygon etholiadol diwethaf;
  - iii. Y Gorchymyn arolygon cymunedol diwethaf;
  - iv. Amseru'r arolwg cymunedol cynlluniedig/parhaus nesaf;
  - v. Amrywiant wardiau etholiadol o'r cyfartaledd sirol, gan gyfeirio'n benodol at;
    - vi. y rhai uwchlaw +/-50%;
    - vii. y rhai rhwng +/-25% a +/-50%;
    - viii. y rhai islaw +/-25%; a,
    - ix. Y nifer o wardiau etholiadol presennol sydd â mwy na 3 aelod.
7. Er mwyn gwneud asesiad yn seiliedig ar y ffactorau hyn, cysylltodd y Comisiwn â'r prif gynghorau i gasglu data ar yr etholaethau a'u cynlluniau ar arolygon cymunedol yn y dyfodol.
8. Cafodd y wybodaeth a gasglwyd ei choladu ar daenlen. Er mwyn datblygu fformwla lle gellid pennu trefn blaenoriaeth, defnyddiwyd system CAG (coch-ambr-gwyrdd) yn seiliedig ar bwyntiau. Roedd y ffactorau lle defnyddiwyd CAG, a'r paramedrau pennu, fel a ganlyn:



**Atodiad 1**

Ffactor	C		A		G	
	Pwyntiau	Paramedr	Pwyntiau	Paramedr	Pwyntiau	Paramedr
<b>i.</b>	3	Mwy na +/-25%	2	Rhwng +/-10% a +/-25%	1	Llai na +/-10%
<b>ii.</b>	3	Cyn 2000	2	Rhwng 2000 a 2011	1	Ar ôl 2011
<b>iii.</b>	3	Cyn 2007	2	Rhwng 2007 a 2013	1	Ar ôl 2013
<b>vi.</b>	3	Mwy na 10%	2	Rhwng 1% a 10%	1	Dim wardiau
<b>vii.</b>	3	Mwy na 30%	2	Rhwng 15% a 30%	1	Llai na (ac yn gyfwerth â) 15%
<b>viii.</b>	3	Llai na 70%	2	Rhwng 70% a 85%	1	Mwy na (ac yn gyfwerth â) 85%
<b>ix.</b>	3	Mwy na 10%	2	Rhwng 1% a 10%	1	Dim wardiau

Noder. Nid yw Ffactor iv. yn ymddangos yn y tabl uchod gan y caiff arolwg cymunedol cynlluniedig/parhaus ei ystyried wrth amseru arolwg, nid fel blaenoriaeth. Gellir gweld prif gynghorau sy'n cynnal arolygon cymunedol yn y rhaglen yn Atodiad B.

9. Gellir gweld tabl asesiadau wedi'u cwblhau yn Atodiad A. Dylid nodi, ar gyfer Caerdydd, Sir y Fflint, Castell-nedd Port Talbot a Rhondda Cynon Taf, bod yr ardaloedd hyn wedi cynnal arolygon cymunedol ac mae argymhellion wedi'u cyflwyno i Lywodraeth Cymru, ond nid oes Gorchymyn wedi'i wneud eto. Rhagdybiwyd y byddai'r Gorchymynion hyn yn cael eu gwneud cyn bod y Comisiwn yn ymgymryd â'i arolygon etholiadol.

## Rhaglen Arolygon Etholiadol 2017 (ERP 2017)




10. Gellir gweld yr ERP 2017 arfaethedig yn Atodiad B.
11. Mae'r rhaglen yn seiliedig ar y data sylfaen yn y tabl asesiadau, ond gan symud prif gynghorau i fyny neu i lawr y drefn er mwyn ystyried eich cais am i Sir Gaerfyrddin, Ceredigion, Conwy, Sir Ddinbych, Gwynedd, Sir Fynwy, Sir Benfro, Powys a Thorfaen gael eu cwblhau yn gyntaf a lle mae arolwg cymunedol ar waith neu yn yr arfaeth. Mae'r rhaglen hefyd yn adlewyrchu darpariaeth a wnaethom i ddarparu digon o amser i Lywodraeth Cymru gynhyrchu Gorchymyn cymunedol cyn y gall arolwg etholiadol ddechrau.
12. Yr unig brif gyngor sydd wedi dynodi y bydd yn cynnal neu'n cwblhau arolwg cymunedol llawn cyn etholiad llywodraeth leol 2022 yw Sir Fynwy. Maent wedi cyfleu eu bwriad i gwblhau'u harolwg cymunedol a ataliwyd yn dilyn yr etholiad llywodraeth leol yn 2017. Arolwg etholiadol Sir Fynwy, fodd bynnag, yw un o'r naw arolwg y mae'r Ysgrifennydd Cabinet wedi gofyn iddynt fod y cyntaf i'w cynnal yn y rhaglen. Mae'r Comisiwn o'r farn y byddai'r arolwg o drefniadau etholiadol yn Sir Fynwy yn dipyn gwell o ganiatáu i'r arolwg cymunedol gael ei gwblhau cyn i waith ddechrau ar yr arolwg etholiadol. Dyma farn Cyngor Sir Fynwy hefyd, ac mae'r Ysgrifennydd Cabinet wedi cytuno, am y rheswm hwn, y dylai arolwg etholiadol Sir Fynwy gael ei drefnu ar ddiwedd y rhaglen.

## Atodiad A - Aseiad Amserlen


Prif Gyngor	Aelodau	Nod Meintiau Cyngorau	Ymwahanu o Nod Meintiau Cyngorau %	Gorchymyn etholiadol diwethaf	Newid cymunedo l diwethaf	Wardiai Etholiadol	Amrywiad mewn WE > 50%	Amrywiad mewn WE > 50%	Amrywiad mewn WE 25-50%	Amrywiad mewn WE 25-50%	Amrywiad mewn WE 0-25%	Amrywiad mewn WE 0-25%	Nifer y WE gyda >3 aelod	% nifer y WE gyda >3 aelod	C	A	G	Fformiwlâ	Blaenoriaeth Gyffredinol am Arolwg	Nodyn
Ynys Môn	30	35	-14%	2012	2009	11	0	0%	0	0%	11	100%	0	0%	0	2	5	9	22	
Blaenau Gwent	42	30	40%	n/c	2010	16	0	0%	3	19%	13	81%	1	6%	2	4	2	16	1	
Pen-y-bont ar Ogwr	54	46	17%	1998	2009	39	3	8%	11	28%	25	64%	1	3%	2	5	0	16	1	
Caerfili	73	60	22%	1998	2012	33	0	0%	2	6%	31	94%	2	6%	1	3	3	12	17	
Caerdydd	75	75	0%	1998	2016*	29	2	7%	1	3%	26	90%	5	17%	2	1	4	12	17	* Disgwyf Gorchymyn Cymunedol
Sir Gaerfyrddin	74	75	-1%	1998	2016	58	1	2%	12	21%	45	78%	0	0%	1	3	3	12	17	Blaenoriaeth wedi'i rhoi gan Ysgrifennydd y Cabinet – canslo'r gorchymyn
Ceredigion	42	38	11%	2002	2000	40	1	3%	16	40%	23	58%	0	0%	3	3	1	16	1	Blaenoriaeth wedi'i rhoi gan Ysgrifennydd y Cabinet – canslo'r gorchymyn
Conwy	59	46	28%	1998	2015	38	0	0%	9	24%	29	76%	1	3%	2	3	2	14	8	Blaenoriaeth wedi'i rhoi gan Ysgrifennydd y Cabinet – canslo'r gorchymyn
Sir Ddinbych	47	47	0%	1998	2003	30	0	0%	4	13%	26	87%	0	0%	2	0	5	11	21	Blaenoriaeth wedi'i rhoi gan Ysgrifennydd y Cabinet – canslo'r gorchymyn
Sir y Fflint	70	61	15%	1998	2016*	57	1	2%	13	23%	43	75%	0	0%	1	4	2	13	13	* Disgwyf Gorchymyn Cymunedol
Gwynedd	75	61	23%	2002	2007	71	6	8%	26	37%	39	55%	0	0%	3	3	1	16	1	Blaenoriaeth wedi'i rhoi gan Ysgrifennydd y Cabinet – canslo'r gorchymyn
Merthyr Tudful	33	30	10%	n/c	n/c	11	0	0%	2	18%	9	82%	3	27%	3	2	2	15	5	
Sir Fynwy	43	46	-7%	2002	2002	42	1	2%	7	17%	34	81%	0	0%	1	4	2	13	13	Blaenoriaeth wedi'i rhoi gan Ysgrifennydd y Cabinet – canslo'r gorchymyn
Castell-nedd Port Talbot	60	56	7%	n/c	2016*	42	2	5%	13	31%	27	64%	0	0%	3	1	3	14	8	* Disgwyf Gorchymyn Cymunedol
Casnewydd	50	49	2%	2002	2002	20	0	0%	4	20%	16	80%	1	5%	1	4	2	13	13	
Sir Benfro	60	61	-2%	1998	2011	60	2	3%	17	28%	41	68%	0	0%	2	3	2	14	8	Blaenoriaeth wedi'i rhoi gan Ysgrifennydd y Cabinet – canslo'r gorchymyn
Powys	73	67	9%	1998	2008	73	6	8%	25	34%	42	58%	0	0%	3	2	2	15	5	Blaenoriaeth wedi'i rhoi gan Ysgrifennydd y Cabinet – canslo'r gorchymyn
Rhondda Cynon Taf	75	75	0%	1998	2016*	52	5	10%	17	33%	30	58%	0	0%	3	1	3	14	8	* Disgwyf Gorchymyn Cymunedol
Abertawe	72	75	-4%	1998	2011	36	2	6%	6	17%	28	78%	6	17%	2	4	1	15	5	
Bro Morgannwg	47	51	-8%	2002	2010	23	0	0%	5	22%	18	78%	2	9%	0	5	2	12	17	
Tor-faen	44	30	47%	2002	2013	24	1	4%	5	21%	18	75%	0	0%	1	4	2	13	13	Blaenoriaeth wedi'i rhoi gan Ysgrifennydd y Cabinet – canslo'r gorchymyn
Wrecsam	52	54	-4%	1998	2009	47	2	4%	10	21%	35	74%	0	0%	2	3	2	14	8	

# RHAGLEN AROLYGON ETHOLIADOL 2017

	2017				2018				2019				2020				2021				2022			
	Ch1	Ch2	Ch3	Ch4	Ch1	Ch2	Ch3	Ch4	Ch1	Ch2	Ch3	Ch4	Ch1	Ch2	Ch3	Ch4	Ch1	Ch2	Ch3	Ch4	Ch1	Ch2	Ch3	Ch4
Ceredigion	C			D				T																
Gwynedd	C			D				T																
Powys	C				D						T													
Conwy		C			D	D				T														
Sir Benfro			C		D	D			T															
Tor-faen			C		D	D			T															
Sir Gaerfyrddin				C		D				T														
Sir Ddinbych				C		D				T														
Blaenau Gwent				C	C		D				T													
Pen-y-bont ar Ogwr				C	C		D				T													
Merthyr Tudful					C		D		D			T												
Abertawe					C		D		D			T												
Castell-nedd Port Talbot						C				D			T											
Rhondda Cynon Taf						C				D			T											
Wrecsam							C				D			T										
Sir y Fflint							C				D			T										
Casnewydd								C			D			T										
Caerffili								C			D			T										
Caerdydd									C			D		T										
Bro Morgannwg									C			D		T										
Ynys Môn										C			D									T		
Sir Fynwy										C			D									T		

- C - Cychwyn yr arolwg
- D - Cynigion Drafft
- T - Cynigion Terfynol
- E - Etholiad Llywodraeth Leol
-  - Arolwg Etholiadol
-  - Arolwg Cymunedol o dan yr hen ddeddfwriaeth
-  - Cyfnod pan na all y Comisiwn wneud argymhellion - Awst i Fai





Comisiwn Ffiniau a  
Democratiaeth Leol  
Cymru



Local Democracy and  
Boundary Commission  
For Wales

**Arolygon Etholiadol:**

**Polisi Meintiau Cynghorau**

**Hydref 2016**

# 1. Cyflwyniad

- 1.1 Mae'n ofynnol bod Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru yn cynnal arolygon cyfnodol o'r trefniadau etholiadol ar gyfer prif ardaloedd yng Nghymru. Caiff y modd y mae'r Comisiwn yn cynnal arolwg etholiadol ei ddiffinio gan ddeddfwriaeth, ein dogfen *Arolygon Etholiadol: Polisi ac Arfer* a chan Gyfarwyddiadau a gyhoeddir gan Lywodraeth Cymru.
- 1.2 Cyhoeddodd y Comisiwn ei ddogfen *Arolygon etholiadol: polisi ac arfer* ar 12 Mawrth 2012. Nid oedd y ddogfen honno'n cynnwys ymagwedd y Comisiwn at faint cynghorau. Felly, ym mis Mai 2012, lluniwyd papur ymgynghori gennym yn esbonio barn gychwynnol o ran sut y gellir pennu meintiau cynghorau cyn cynnal arolwg etholiadol.
- 1.3 Ar ddiwedd y cyfnod ymgynghori cychwynnol roedd ymatebion wedi dod i law gan fwyafrif y prif gynghorau, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC), y pleidiau gwleidyddol ac unigolion, gan gynnwys cyn gynghorwyr. Roedd yr ymateb cyffredinol o blaid dull sy'n seiliedig ar nodi nifer y cynghorwyr a fyddai'n briodol i sicrhau darparu llywodraeth leol effeithiol a chyfleus ar gyfer cynghorau. Nid oedd cefnogaeth gyffredinol, fodd bynnag, i'r fethodoleg benodol a gynigiwyd gan y papur. Roedd yn amlwg bod rhai pryderon ynglŷn â'r dull bandio a awgrymwyd. Mynegwyd y farn y dylai'r fethodoleg a ddefnyddir a'r cyfiawnhad dros sefydlu meintiau cynghorau fod yn seiliedig ar ffactorau ehangach na nodweddion cymdeithasol-daearyddol yn unig, a gallai fod angen iddynt gynnwys ffactorau dwysedd poblogaeth. Roedd barn hefyd fod angen cyfiawnhau'r cymarebau etholwyr fesul cynghorydd a fabwysiadwyd yn y papur ymgynghori.
- 1.4 Cyfarfu cynrychiolwyr o'r Comisiwn â chynrychiolwyr o CLILC ym mis Gorffennaf 2012 i drafod canlyniad yr ymgynghoriad. Yn y cyfarfod cytunwyd y byddai'r Comisiwn yn gweithio gyda'r Uned Ddata Llywodraeth Leol ~ Cymru i ystyried ymhellach y fethodoleg a ddefnyddir ar gyfer pennu meintiau cynghorau, ac i ymchwilio i setiau data a methodolegau gwahanol. Cynhaliwyd cyfarfodydd pellach gyda CLILC a'r Uned Ddata, ac, yn dilyn gwaith dadansoddi manwl gan yr Uned Ddata, roedd y Comisiwn yn gallu ystyried methodolegau amgen a ddefnyddiai ddata a oedd yn gyfredol ac ar gael yn rhwydd. Buom yn ystyried methodolegau a oedd mewn sawl ffordd yn ystyried niferoedd etholwyr, maint poblogaethau a mesurau dwysedd poblogaeth a threfoli. Rydym wedi penderfynu ar fethodoleg a ffefrir sydd wedi'i seilio'n fras ar y dull sydd ar waith yn yr Alban ar hyn o bryd.
- 1.5 Cyhoeddwyd y fethodoleg a ffefrir mewn papur ymgynghori ar 27 Mawrth 2013. Cawsom ymatebion gan dros hanner y prif gynghorau, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC), dwy blaid wleidyddol ac unigolion. Roedd yr ymateb cyffredinol o blaid y fethodoleg a'i bod yn briodol i sicrhau darparu llywodraeth leol effeithiol a chyfleus ar gyfer cynghorau.


## 2. Methodoleg Maint Cynghorau

- 2.1 Wrth ystyried methodoleg ar gyfer pennu maint cynghorau, mae'r Comisiwn wedi mabwysiadu'r egwyddor y dylai'r dull o fodelu niferoedd cynghorwyr fod yn wrthrychol, yn dryloyw ac yn seiliedig ar fethodoleg gadarn. Wrth benderfynu ar fethodoleg a ffefrir, ystyriodd y Comisiwn y dull a oedd ar waith yn yr Alban yn eu pedwerydd arolwg cyffredinol sydd wedi bod yn ddull derbyniedig a brofwyd o farnu maint cynghorau ar Awdurdodau Lleol, gydag amrywiadau o ran daearyddiaeth, topograffeg a dosbarthiad poblogaeth. Mae'r Comisiwn a'r Uned Ddata wedi gweithio gyda Chomisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol yr Alban i gael gwell dealltwriaeth o'r modd y datblygwyd eu dull, ac o ganlyniad, mae model tebyg wedi'i gynhyrchu ar gyfer Cymru.
- 2.2 Mae'r fethodoleg yn ein polisi yn defnyddio gwybodaeth yn ymwneud â dosbarthiad poblogaeth mewn cynghorau, gan alluogi dod i gasgliad ynglŷn â natur drefol a / neu natur wledig cymharol eu hardaloedd, mewn termau demograffig. Mae defnyddio'r data i gategoreiddio'r cynghorau wedyn yn rhoi ymagwedd dryloyw a chadarn a fydd yn cynnig dull cynaliadwy ar gyfer dyrannu yn y dyfodol. Mae'n sicrhau bod cynghorau sy'n rhannu nodweddion tebyg yn cael eu trin yn yr un ffordd. Y paramedrau a ddefnyddiwyd i bennu'r categorïau yw trefoli (canran y boblogaeth sy'n byw y tu allan i aneddiadau sydd â phoblogaeth o fwy na 10,000) a dwysedd poblogaeth (nifer o bobl fesul hectar). Pennwyd y categorïau gan gyfuniad o edrych ar grwpiau priodol yn y data, ac fel y pennir gan batrymau dosbarthiad poblogaeth priodol mewn ardaloedd prif gynghorau.
- 2.3 Ystyriodd y Comisiwn ddefnyddio ffactorau eraill yn y model yn ychwanegol at y rheiny a ddisgrifir uchod. Yn ystod y broses ymgynghori, mae'r Comisiwn wedi derbyn awgrymiadau y gallai amddifadedd fod yn ystyriaeth mewn polisi ynghylch maint cyngor. Daethpwyd i'r casgliad y byddai elfen o'r fath yn cynyddu cymhlethdod ar draul tryloywder. Methodoleg sy'n seiliedig ar ddosbarthiad demograffig yw sail y dull yr ystyriwn sydd fwyaf priodol i Gymru.

## Dwysedd Poblogaeth

2.4 Y ffactor cyntaf a ystyrir yw dwysedd poblogaeth. Mae'r siart isod yn dangos dosbarthiad dwysedd y boblogaeth ledled Cymru. Y data a ddefnyddir yma yw Amcangyfrifon Canol Blwyddyn 2011<sup>1</sup> o ddwysedd y boblogaeth a dwysedd poblogaeth 2011 cysylltiedig. Mae'r data'n awgrymu bod pedwar grŵp o brif gynghorau yng Nghymru o ran dwysedd poblogaeth (o'r brig i'r gwaelod):

- i. Y rhai sy'n fwy neu'n gyfwerth â 10 (Caerdydd);
- ii. Y rhai sy'n fwy neu'n gyfwerth â 4.5 ond yn llai na 10 (Casnewydd i Ferthyr Tudful);
- iii. Y rhai sy'n fwy neu'n gyfwerth â 2 ond yn llai na 4.5 (Bro Morgannwg i Wreccsam);  
a,
- iv. Y rhai sy'n llai na 2 (Sir Ddinbych i Bowys)




2.5 Maer'r Comisiwn felly yn fodlon i barhau i ddefnyddio'r ffactorau fel y'u hamlinellwyd yn ein Polisi Maint Cynghorau yn 2013.



## Trefoli

- 2.6 Ystyriwyd y gallai'r Comisiwn rannu prif gynghorau Cymru yn ôl y pedwar categori a nodwyd ar sail dwysedd y boblogaeth yn unig. Fodd bynnag, cred y Comisiwn fod llawer i'w ddweud o blaid sefydlu model cadarn sy'n adlewyrchu dwysedd poblogaeth a gwasgariad poblogaeth mewn ardal awdurdod lleol, a model sy'n gallu parhau ac addasu i newidiadau ym mhoblogaeth prif gynghorau Cymru yn y dyfodol. Felly, mae'r model yn cynnwys y ddwy set o ffactorau, er nad yw hynny, yn y lle cyntaf hwn, yn effeithio ar nifer o brif gynghorau.
- 2.7 Yr ail ffactor a ystyriwyd gennym felly oedd 'trefoli' neu ganran y boblogaeth sy'n byw y tu allan i aneddiadau â phoblogaeth dros 10,000. Mae'r ffactor hwn yn gwahaniaethu'r cynghorau hynny sydd â mwyafrif poblogaeth yn byw mewn cymunedau mwy, trefi neu aneddiadau trefol. Mae'r siart isod yn dangos y dosbarthiad ar hyd a lled Cymru o ganran y boblogaeth sy'n byw y tu allan i aneddiadau â phoblogaeth o fwy na 10,000. Er nad oes unrhyw raniad amlwg yn y data, er mwyn gwahaniaethu lle mae poblogaeth cyngor yn fwy crynodedig mewn ardaloedd trefol rydym wedi nodi dau grŵp, a'r pwynt gwahanu yw ble mae 40% o'r boblogaeth yn byw y tu allan i aneddiadau o 10,000 o bobol.



- 2.8 Wrth gymharu â 2011, mae rhywfaint o newidiadau wedi bod yng nghanran y boblogaeth sy'n byw y tu allan i aneddiadau o 10,000 o bobl neu fwy. Roedd tri phrif gyngor â newidiadau dros 10%: Pen-y-bont ar Ogwr (gostyngiad o 12.2 o bwyntiau canran), Conwy (gostyngiad o 11.1 o bwyntiau canran) a Sir Fynwy (gostyngiad o 11.3 o bwyntiau canran). Mae hyn yn cynrychioli'r boblogaeth yn symud o leoliadau mwy gwledig i leoliadau mwy trefol yn yr ardaloedd cyngor hynny.
- 2.9 Caiff hyn un effaith lle mae cyngor yn ymddangos uwchlaw neu islaw'r trothwy 40%. Mae Conwy wedi symud o 41.2% i 30%, gan symud o fewn 1% o Wrecsam.

2.10 Mae'r Comisiwn yn fodlon, er y bu un newid lle mae un awdurdod islaw'r trothwy, fod y gwahaniaeth rhwng Conwy ar 30% a Sir Fynwy ar 44.6% yn dal yn arwyddocaol, ac mae'n bwynt priodol i osod y ffactor hwnnw ym methodoleg y Comisiwn.

## **Crynodeb o Baramedrau'r Model**

2.11 I ystyried yr amgylchiadau yng Nghymru, ymatebion i'r ymgynghoriadau a sicrhau mai dim ond newidiadau sylweddol mewn dwysedd poblogaeth fyddai'n newid categori prif gyngor, cynigir set o gategoriâu trefoli a dwysedd poblogaeth fel a ganlyn:

- Lle mae 40% neu fwy o'r boblogaeth yn byw y tu allan i aneddiadau sy'n fwy na 10,000 o bobl; a,
  - o Lle mae dwysedd y boblogaeth yn fwy neu'n gyfwerth â 10 o bobl fesul hectar, yn fwy neu'n gyfwerth â 4.5 o bobl fesul hectar ond yn llai na 10 o bobl fesul hectar, yn fwy neu'n gyfwerth â 2 o bobl fesul hectar ond yn llai na 4.5 o bobl fesul hectar, yn llai na 2 o bobl fesul hectar.

## Categoriadau a Dyrannu Cynghorwyr

2.12 Mae defnyddio'r gwerthoedd o'r siartiau uchod ac a ddisgrifir ym mharagraff 2.9 yn rhoi'r paramedrau categorieddio a ddangosir yn Nhabl 1.

**Tabl 1: Paramedrau categorieddio**

Categori	Natur drefol (% o'r boblogaeth yn byw y tu allan i drefi â phoblogaeth mwy na 10,000)		Dwysedd poblogaeth (pobl fesul hectar)
1	Llai na 40%	A	Mwy neu'n gyfwerth â 10
2	Llai na 40%	A	Mwy neu'n gyfwerth â 4.5
3	Mwy na 40%	A/NEU	Llai na 4.5
4	Mwy na 40%	A	Llai na 2

2.13 Gan ddefnyddio'r fethodoleg hon caiff y cynghorau eu categorieddio fel y dangosir yn Nhabl 2.

**Tabl 2: Dyraniad categori**

Cyngor	Categori
Blaenau Gwent	2
Pen-y-bont ar Ogwr	2
Caerffili	2
Caerdydd	1
Sir Gaerfyrddin	4
Ceredigion	4
Conwy	3
Sir Ddinbych	4
Sir y Fflint	3
Gwynedd	4
Ynys Môn	4
Merthyr Tudful	2
Sir Fynwy	4
Castell-nedd Port Talbot	3
Casnewydd	2
Sir Benfro	4
Powys	4
Rhondda Cynon Taf	2
Abertawe	2
Bro Morgannwg	3
Tor-faen	2
Wrecsam	3

2.14 Pan fydd y cynghorau wedi'u dyrannu i gategori, yna caiff cymhareb cynghorwyr i'r boblogaeth ei chymhwyso i bob cyngor yn y categori. Mae'r dull hwn yn ystyried maint y boblogaeth gyffredinol, tra'n parhau i sicrhau hefyd fod cynghorau â nodweddion tebyg yn cael eu trin yr un fath.

2.15 Mae'r cymarebau poblogaeth ar gyfer y categorïau yn cael eu pennu fel set a chan ystyried y categorïau a bennwyd yn ôl trefoli a dwysedd poblogaeth. Cynigir newid deublyg rhwng y categorïau ar y brig a'r gwaelod yng Nghymru i adlewyrchu'r amrediad

ychydig yn llai mewn trefoli a dwysedd poblogaeth. Rhyw 1:2,000 yw'r gymhareb gyfartalog bresennol ar gyfer cynghorau categori 4, ac felly ystyriwyd ei bod yn briodol i gymhwyso'r gymhareb hon i'r categori hwn. Mae'r newid o ran cymarebau rhwng categorïau 4 a 3 a rhwng categorïau 3 a 2 yn fach ar 500 o bobl fesul cynghorydd. Mae hyn i adlewyrchu'r newid graddol yn natur categorïau, ac mae'r un fath ag ym methodoleg yr Alban. Mae mwy o newid, sef 1,000, rhwng y ddau gategori uchaf, gan adlewyrchu'r gwahaniaeth yn eu natur. Dangosir y cymarebau arfaethedig yn Nhabl 3.

**Tabl 3: Cymarebau cynghorwyr i'r boblogaeth**

Categori	Cymhareb (1: )
1	4,000
2	3,000
3	2,500
4	2,000

2.16 Defnyddir y gymhareb cynghorwyr i'r boblogaeth ar gyfer pob categori er mwyn pennu nifer y cynghorwyr, fel y dangosir yn Nhabl 4.

**Tabl 4: Categori a dyraniad cynghorwyr**

Categori	Cyngor	Poblogaeth	Nifer y Cynghorwyr
1	Caerdydd	357,160	89
2	Blaenau Gwent	69,544	23
	Pen-y-bont ar Ogwr	142,092	47
	Caerffili	180,164	60
	Merthyr Tudful	59,324	20
	Casnewydd	147,769	49
	Rhondda Cynon Taf	237,411	79
	Abertawe	242,382	81
	Tor-faen	91,836	31
3	Conwy	116,218	46
	Sir y Fflint	154,074	62
	Castell-nedd Port Talbot	140,992	56
	Bro Morgannwg	127,592	51
	Wrecsam	136,647	55
4	Sir Gaerfyrddin	185,123	93
	Ceredigion	74,642	37
	Sir Ddinbych	94,691	47
	Gwynedd	122,864	61
	Ynys Môn	69,979	35
	Sir Fynwy	92,476	46
	Sir Benfro	123,464	62
	Powys	132,642	66
	<b>Cymru</b>	<b>3,099,086</b>	<b>1,196</b>

### 3. Cyfyngiadau

- 3.1 Fel y nodwyd uchod, wrth ystyried methodoleg ar gyfer pennu maint cynghorau, mabwysiadodd y Comisiwn yr egwyddor y dylai unrhyw ymagwedd at fodelu niferoedd cynghorwyr fod yn wrthrychol, yn dryloyw ac yn seiliedig ar fethodoleg gadarn. Deellir, fodd bynnag, y gall unrhyw ddull ar gyfer pennu maint cyngor gael ei gyfyngu gan ddeddfwriaeth a Chyfarwyddiadau gan Weinidogion, ac ymwybyddiaeth o effaith unrhyw newid arfaethedig i feintiau cynghorau presennol.
- 3.2 Mewn perthynas â maint cyngor, mae Cyfarwyddiadau'r Gweinidog mewn perthynas ag arolygon etholiadol wedi datgan yn y gorffennol:
- (a) Ystyrir bod angen lleiafswm o 30 cynghorydd er mwyn rheoli materion cyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol yn briodol;
  - (b) Ystyrir, er mwyn lleihau'r risg o gyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol yn mynd yn afrosgo ac yn anodd ei reoli, fel arfer mae angen uchafswm o 75 cynghorydd i reoli materion cyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol yn briodol.
- O'n hymgyngoriad cynharach, ymddengys fod y mocsima a'r minima hyn yn cael eu derbyn yn gyffredinol, ac rydym felly wedi derbyn y rhain fel cyfyngiadau i'r fethodoleg.
- 3.3 Ystyriwyd hefyd yr effaith y gallai newid sylweddol ei chael ar rediad cyngor pe bai'n gymwys o ganlyniad i un arolwg etholiadol. Mae cyfyngiad wedi'i gymhwyso felly fel na fydd nifer y cynghorwyr, ar gyfer pob arolwg, yn amrywio mwy na 10%. Ar gais y prif gyngor dan sylw, gall y Comisiwn ystyried mynd dros ben ei derfyn amrywio 10% wrth symud tuag at faint cyngor a bennir gan y model, os gellir dangos bod yr ateb yn fwy addas i lywodraeth leol effeithiol a chyfleus.
- 3.4 Er mwyn sicrhau bod y broses yn glir a theg, mae'r cyfyngiadau ar uchafswm neu isafswm niferoedd cynghorwyr neu ar lefelau newid, wedi'u cymhwyso ar ddiwedd y broses.

## 4. Model a Gymhwyswyd

- 4.1 Mae'r dyraniad cynghorwyr a bennir gan y fethodoleg (yn Adran 2 uchod) yn dod yn destun y cyfyngiadau wedyn (yn Adran 3 uchod). Mae Tabl 5 yn dangos nifer bresennol y cynghorwyr, ac mae'n rhoi'r nifer ddyranedig o gynghorwyr cyn ac ar ôl cyfyngiadau.

**Tabl 5: Categori a dyraniad cynghorwyr cyn ac ar ôl cyfyngiadau**

Categori	Cyngor	Nifer y cynghorwyr		
		Presennol (2013)	Cyn cyfyngiadau	Ar ôl cyfyngiadau
1	Caerdydd	75	89	75
2	Blaenau Gwent	42	23	38
	Pen-y-bont ar Ogwr	54	47	49
	Caerffili	73	60	66
	Merthyr Tudful	33	20	30
	Casnewydd	50	49	49
	Rhondda Cynon Taf	75	79	75
	Abertawe	72	81	75
	Tor-faen	44	31	40
3	Conwy	59	46	53
	Sir y Fflint	70	62	63
	Castell-nedd Port Talbot	64	56	58
	Bro Morgannwg	47	51	51
	Wrecsam	52	55	55
4	Sir Gaerfyrddin	74	93	75
	Ceredigion	42	37	38
	Sir Ddinbych	47	47	47
	Gwynedd	75	61	67
	Ynys Môn	30	35	33
	Sir Fynwy	43	46	46
	Sir Benfro	60	62	62
	Powys	73	66	66
	<b>Cymru</b>	<b>1,254</b>	<b>1,196</b>	<b>1,211</b>

- 4.2 Mae'r fethodoleg arfaethedig yn rhoi dull tryloyw, dull sy'n seiliedig ar ddata a dull diogel at y dyfodol ar gyfer cyfrifo'r nifer briodol o gynghorwyr ym mhob prif gyngor a Chymru gyfan. Mewn rhai awdurdodau, mae'r niferoedd cynghorwyr a gafwyd o'r dull arfaethedig yn dangos newid sylweddol o'u niferoedd presennol. Mae'r cyfyngiadau a gymhwysir ar ôl hynny yn sicrhau bod y broses trosglwyddo i'r system hon yn hwylus a theg.

### Diweddariadau

- 4.3 Bydd y Comisiwn yn diweddarau allbynnau'r model yn fuan ar ôl i'r Swyddfa Ystadegau Gwladol gyhoeddi Amcangyfrifon Canol Blwyddyn newydd. Bydd hefyd yn cael ei ddiweddarau yn fuan ar ôl i bob Gorchymyn arolwg etholiadol newydd gael ei wneud gan Lywodraeth Cymru.

### Ôl-nodyn

<sup>1</sup> Maent yn gyfres gyson o ystadegau poblogaeth a ddarperir ar gyfer 30 Mehefin bob blwyddyn. Dim ond unwaith bob 10 mlynedd y cynhelir y Cyfrifiad, ac ar ddyddiad gwahanol.

## Nodyn technegol: Gofynion ar gyfer pob prif ardal o ran darparu data ystadegol i Gomisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru.

### Cyflwyniad a Hanes

- 1 Er mwyn cynnal arolwg etholiadol ar gyfer prif ardal, mae'n rhaid i'r Comisiwn gael yr wybodaeth ystadegol angenrheidiol ar gyfer gwneud penderfyniadau am nifer y cynghorwyr mewn Cyngor a nifer yr etholwyr ym mhob ward etholiadol.
- 2 Ar ddechrau arolwg etholiadol mae'r Comisiwn yn gofyn i'r Swyddog Cofrestru Etholiadol (SCE) roi'r ffigyrau etholiadol diweddaraf ar gyfer pob ardal gymunedol a ward (lle mae cymuned wedi ei rhannu'n wardiau). Gofynnir am ragamcaniad ymhen pum mlynedd o nifer yr etholwyr hefyd ar yr un sail.
- 3 O ran y ffigyrau presennol, nid yw'r rhain wedi cael eu darparu bob amser mewn fformat cyson ac, ar sawl achlysur, mae wedi bod yn ofynnol i'r Comisiwn fynd yn ôl at y SCE am eglurhad o'r ffigyrau. Mae'r anghysonderau wedi cymryd nifer o ffurfiau megis etholwyr wedi eu rhestru fesul ardal bleidleisio yn hytrach na chymuned/ward gymunedol, data sydd ar goll, cyfansymiau anghywir ac ati. Mae egluro a chywiro'r data hyn wedi cymryd amser ac ymdrech i'w datrys ac, ar adegau, mae hyn wedi cael effaith ar y gwaith o gynnal arolwg yn brydlon.
- 4 O ran y ffigyrau rhagamcanol, mae'r Comisiwn wedi derbyn nifer o ffyrdd gwahanol o'u cyfrifo, yn amrywio o gynnydd cyffredinol fesul canradd, i benderfyniadau gofalus ynghylch cyraeddiadau, marwolaethau a chynigion datblygu. Ar achlysuron prin, rydym wedi cael gwybod nad yw'n bosibl darparu ystadegau o'r fath. Mewn amgylchiadau fel hyn, mae'n rhaid i'r Comisiwn ddefnyddio'r etholaethau presennol wrth gynnig trefniadau etholiadol ac wedyn nid yw'n gallu mesur addasrwydd y trefniadau ar gyfer y dyfodol. Unwaith eto, ar adegau, mae anawsterau wrth gael yr ystadegau hyn wedi cael effaith ar y gwaith o gynnal arolwg yn brydlon.
- 5 Mae Deddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013 yn rhoi gofyniad pellach ar y Comisiwn mewn perthynas â data ystadegol a ddarperir gan brif ardal: mae Adran 30 (2) (a) yn datgan y dylid ystyried *"...unrhyw anghysondeb rhwng nifer etholwyr llywodraeth leol a nifer y personau sydd yn gymwys i fod yn etholwyr llywodraeth leol..."*
- 6 Er mwyn osgoi'r problemau sydd wedi digwydd yn flaenorol mewn perthynas ag ystadegau etholiadol, mae'r Comisiwn wedi creu'r Nodyn Technegol hwn. Bydd hyn yn cynorthwyo SCE pob prif gyngor i ddeall union ofynion y Comisiwn o ran y data etholiadol y bydd yn gofyn amdanynt cyn dechrau arolwg.

### Gofynion

- 7 Mae'r Comisiwn angen pedair set wahanol o ddata gan SCE pob prif gyngor:
  - i. Y trefniadau presennol;
  - ii. Yr anghysondeb rhwng nifer etholwyr llywodraeth leol a nifer y personau sydd yn gymwys i fod yn etholwyr llywodraeth leol;
  - iii. Rhagamcaniad ymhen pum mlynedd; ac
  - iv. Y data ar gyfer pob un o'r pum mlynedd ddiwethaf

## Y Trefniadau Presennol

- 8 Mae'r Comisiwn yn gofyn am y rhif diweddaraf ar gyfer etholwyr llywodraeth leol cofrestredig ym mhob **cymuned a ward gymunedol** (lle mae cymuned wedi ei rhannu'n wardiau) yn y brif ardal. Y rhain yw'r blociau adeiladu sylfaenol y byddai'n well gan y Comisiwn eu defnyddio wrth greu wardiau etholiadol. **Nid yw** niferoedd yr etholwyr yn ôl cod post, dosbarth etholiadol neu ward etholiadol yn dderbyniol. Dylai'r wybodaeth gael ei darparu yn y pro fforma a ddarperir i'r cyngor ar ddechrau'r arolwg. Bydd gan wahanol gynghorau swyddogion gwahanol sy'n gyfrifol am lunio'r ffigyrau hyn a dylai'r Cyngor ei hun nodi pwy yn y cyngor sydd yn y sefyllfa orau i ddarparu'r wybodaeth hon.
- 9 Mae'r Comisiwn hefyd yn gofyn i'r gofrestr lawn o ddata etholwyr, sy'n ffynhonnell y wybodaeth hon, gael ei chadw gan y prif gyngor. Ar ben hynny, darperir fersiwn wedi'i olygu o'r gofrestr lawn i'r Comisiwn.
- 10 Lle mae enwau amgen Cymraeg a Saesneg yn bodoli, dylai'r rhain gael eu rhoi.

## Rhagamcaniad ymhen Pum Mlynedd

- 11 Mae'r Comisiwn yn gofyn am ragamcaniad sydd wedi ei ystyried yn ofalus ac sydd, cyn belled ag y bo modd, yn gywir, o nifer yr etholwyr ym mhob **cymuned a ward gymunedol** bresennol (lle mae cymuned wedi'i rhannu'n wardiau) yn y brif ardal sy'n rhagamcanu ar gyfer y flwyddyn sydd bum mlynedd ar ôl blwyddyn y ffigyrau etholiadol presennol (e.e. ar gyfer 2022 lle mae nifer yr etholwyr presennol ar gyfer 2017). Dylai'r ffigyrau rhagamcanol hyn gael eu cyflwyno hefyd yn y pro fforma a ddarperir i'r cyngor ar ddechrau'r arolwg.
- 12 Mater i'r cyngor dan sylw yw penderfynu sut i ragamcanu'r rhagolygon hyn. Mae'r Comisiwn yn cydnabod nad oes dull manwl gywir a bod ansicrwydd ar hyn o bryd yn y farchnad dai oherwydd y dirywiad economaidd a fydd o bosibl yn gwneud rhai datblygiadau'n llai tebygol o gael eu hanheddu gan etholwyr cofrestredig nag yn flaenorol. Felly mae'r Comisiwn yn rhybuddio yn erbyn rhagolygon gor-optimistaidd ac yn cynghori cynghorau i gymryd hyn i ystyriaeth wrth wneud rhagolygon.
- 13 Dylai'r ffigyrau rhagamcanol gael eu cyfrifo gan benderfynu ar gyraeddiadau, marwolaethau, cynigion datblygu a thueddiadau o ran newid yn y boblogaeth. Mae'n annerbyniol i ddarparu dim ond ffigyrau poblogaeth rhagamcanol neu gynnydd cyffredinol ar draws y prif gyngor. Lle mae'n anodd cyfrifo ffigwr rhagamcanol ar lefel ward gymunedol, dylai'r Cyngor geisio gwneud y rhagolygon gorau posibl, gan wneud rhagolygon pro rata dim ond lle mae hynny'n hollol angenrheidiol.
- 14 Yn ogystal â'r data, mae'r Comisiwn yn disgwyl i bob cyngor osod allan yn glir sut y cafodd y ffigyrau rhagamcanol eu cyfrifo.
- 15 Mae'r amodau newydd hyn wedi eu gosod oherwydd anghywirdeb hanesyddol y ffigyrau rhagamcanol a ddarparwyd mewn arolygon yn y gorffennol, o ran niferoedd yr etholwyr yn y pen draw ym mhob ardal a'r modd y cawsant eu creu. Mae'n amlwg wrth edrych yn ôl ar ragamcaniadau a ddarparwyd gan gynghorau yn y gorffennol a'u cymharu â'r ffigyrau perthnasol ar yr adeg dan sylw bod gwahaniaeth sylweddol rhwng y ddau.



- 16 Er bod y Comisiwn yn cydnabod nad yw'n hawdd darparu rhagamcaniad hollol gywir ym mhob achos, dylai'r cynghorau wneud ymdrech sylweddol i gyrraedd y rhagamcaniad gorau posibl sy'n seiliedig ar dystiolaeth.

**Yr anghysondeb rhwng nifer etholwyr llywodraeth leol a nifer y personau sydd yn gymwys i fod yn etholwyr llywodraeth leol**

- 17 Yn ychwanegol at y wybodaeth y gofynnir amdani ym mharagraff 8 uchod, mae'r Comisiwn yn gofyn am ddadansoddiad yn ôl cymuned a ward gymunedol o nifer yr etholwyr sy'n gymwys i bleidleisio yn yr ardaloedd hynny.
- 18 Mae'r Comisiwn yn cydnabod ei bod yn bosibl nad yw'r data hyn yn bodoli neu ei bod yn anodd eu darparu. Fodd bynnag, dylai'r prif gyngor benderfynu a yw'r wybodaeth ar gael i lefel y data sy'n ofynnol gan y Comisiwn ar gyfer cynnal ei arolwg. Os nad yw ar gael, mae'n rhaid i'r cyngor wneud hyn yn eglur i'r Comisiwn ac i bartïon â buddiant a fydd o bosibl yn ceisio gwneud sylwadau i'r Comisiwn ar y gofyniad hwn yn y Ddeddf.

**Hydref 2016**

Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru



## **DATGANIAD YSGRIFENEDIG GAN LLYWODRAETH CYMRU**

<b>TEITL</b>	<b>ETHOLIADAU LLEOL A THREFNIADAU ETHOLIADOL</b>
<b>DYDDIAD</b>	<b>DYDD IAU, 23 MEHEFIN 2016</b>
<b>GAN</b>	<b>MARK DRAKEFORD, YSGRIFENNYDD Y CABINET DROS GYLLID A LLYWODRAETH LEOL</b>

Gwnaeth Gorchymyn Etholiadau Awdurdodau Lleol (Cymru) 2014 ddarpariaeth i ohirio etholiadau lleol yng Nghymru am flwyddyn, o fis Mai 2016 tan fis Mai 2017. Caniataodd hyn i wahanu'r etholiadau oddi wrth etholiadau'r Cynulliad.

Ar hyn o bryd, mae Deddf Llywodraeth Leol 1972 yn darparu bod etholiadau cyffredin i lywodraeth leol yng Nghymru yn digwydd ar y dydd Iau cyntaf ym mis Mai bob pedair blynedd. Felly byddai etholiadau nesaf llywodraeth leol yn digwydd fel arfer ym mis Mai 2021. Ers gweithredu'r ddarpariaeth yn Neddf Cymru 2014, mae etholiadau i'r Cynulliad Cenedlaethol yn digwydd ar gylch pum mlynedd. Polisi Llywodraeth Cymru yw y dylai etholiadau lleol hefyd ddigwydd ar gylch pum mlynedd. Bwriedir felly y bydd cynghorwyr a etholir fis Mai nesa yn dal eu swyddi tan fis Mai 2022.

Mae'r Bil Cymru, sydd o flaen Senedd San Steffan ar hyn o bryd, yn cynnwys darpariaeth a fyddai'n galluogi'r Cynulliad i ddeddfu i bennu cyfnod swydd llywodraeth leol. Gan fod y Bil ar ffurf drafft ar hyn o bryd a phe bai'r ddarpariaeth hon yn peidio dod i rym am unrhyw reswm, gallai Llywodraeth Cymru ddefnyddio'r un pwerau o dan Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 a ddefnyddiwyd gennym yn 2014 i ohirio'r etholiadau am flwyddyn. Mae'r datganiad hwn felly yn rhoi eglurder i lywodraeth leol ynghylch hyd swydd y rhai a etholir flwyddyn nesa.

Yng ngolau hyn, rwyf wedi ystyried y penderfyniad a wnaethpwyd y llynedd ynglŷn â threfniadau etholiadol rhai prif gynghorau. Penderfynwyd bryd hynny na ddylid gweithredu adolygiadau a gynhaliwyd gan y Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru mewn perthynas â naw prif ardal, a derbyn mai'r bwriad oedd y byddai cynghorau a etholwyd yn 2017 dim ond yn gwasanaethu cyfnod byr cyn eu huno.

Fodd bynnag, er mai canlyniad yr etholiadau fis Mai y flwyddyn nesa fydd cyfnod llawn, oherwydd eu hagosrwydd, y trefniadau y byddai eu hangen a'r aflonyddu ar ymgeiswyr

posib, nid wyf yn bwriadu gweithredu unrhyw newidiadau i'r trefniadau etholiadol presennol yn deillio o'r adolygiadau hynny cyn etholiadau 2017. Y cynghorau sir a effeithir yw Caerfyrddin, Ceredigion, Conwy, Dinbych, Gwynedd, Mynwy, Penfro, Powys a Thorfaen.

Mae'r penderfyniad y bydd cynghorau yn cael eu hethol am gyfnod llawn hefyd yn golygu y bydd y Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol (y Comisiwn) yn dychwelyd i'w cylch arferol o adolygu trefniadau etholiadol bob deng mlynedd. Rwy'n disgwyl i'r Comisiwn gyhoeddi cyn gynted â phosib raglen newydd wedi'i blaenoriaethu sy'n cymryd i ystyriaeth oed y trefniadau presennol mewn rhai ardaloedd a maint y newid ers pan gynhaliwyd yr adolygiad diwethaf. Byddaf yn gofyn i'r Comisiwn, wrth gynllunio eu gwaith, i ddechrau drwy ddychwelyd at y naw adolygiad sydd heb eu gweithredu, gyda'r bwriad o gyflwyno adroddiadau o'r newydd ar y rhain ar gychwyn cyntaf eu rhaglen.

Fy mwriad yw y bydd adolygiadau o drefniadau etholiadol y prif gynghorau yn cael eu cynnal yn erbyn set o feini prawf cyffredin i'w cytuno drwy'r Comisiwn. Rwyf hefyd yn disgwyl y bydd adolygiadau etholiadol ar gyfer y 22 awdurdod wedi'u cwblhau o fewn y tymor llywodraeth leol nesaf.

Mae'r trefniadau hyn yn rhoi eglurder i'r rhai sy'n ystyried sefyll yn etholiad 2017. Maent hefyd yn gosod gorwel cynllunio tymor hir i awdurdodau lleol a'u partneriaid yn y gwasanaethau cyhoeddus. Fodd bynnag, hoffwn ddweud yn ddiarnheulol bod trafodaethau ag awdurdodau lleol a rhanddeiliaid eraill ar yr agenda diwygio yn parhau. Byddaf yn cynnig ffordd ymlaen ar ddiwygio llywodraeth leol yn yr hydref.